

Cynllun Strategol 2021 - 2030

2. Cynnal tir gwyllt neu adfer tir i gyflwr mwy gwyllt gyda chynefinoedd naturiol llewyrchus a bywyd gwyllt toreithiog - trwy adfer cynefinoedd a chyflwyno rhywogaethau brodorol sy'n absennol yn lleol, o fewn cyfyngiadau sy'n bodoli, boed yn amgylcheddol, yn economaidd neu'n gymdeithasol.

2.1. Bydd cynefinoedd yn cael eu hadfer yn ardal Coetir Anian o borfa sydd wedi'i diraddio'n ecolegol a phlanhigfa gonwydd i goetir brodorol, rhostir grug, gorgors a chynefinoedd eraill. Bydd safleoedd eraill yn cael eu cadw neu eu hadfer fel sy'n briodol. Mae ystyriaethau tirwedd o'r pwys mwyaf i greu teimlad o wylltineb: bydd arteffactau fel ffensio yn cael eu symud lle bo hynny'n ymarferol.

Statws Cyfredol:

Adfer cynefinoedd ym Mlwch Corog:

Coetir brodorol - gwarchod y coetir hynafol presennol; ehangu gorchudd coed trwy adfywio naturiol a phlannu coed; adfer planhigfa gonwydd i rywogaethau brodorol.

Gorgors - 11km o ffosydd draenio wedi'u blocio.

Rhostir yr ucheldir - ceffylau a gwartheg wedi'u cyflwyno.

Tynnwyd y rhan fwyaf o ffensys mewnol ar ddiwrnodau gwaith gwirfoddol.

Cynlluniau:

Parhau'r pori gan lysysyddion mawr a pharhau i blannu coed (dull dim ffensys) - ychydig gannoedd o goed bob gaeaf.

Parhau i adfer planhigfa llarwydd i rywogaethau brodorol trwy deneuo, cylchrisglo a thocio uchel.

Cael gwared â ffensys mewnol yn llwyr pan sefydlir coed wedi'u plannu.

Caffael planhigfa gonwydd - adfer i goetir brodorol, cors a rhostir wrth i goed masnachol gael eu cynaeafu, gan ddefnyddio aildyfiant naturiol.

2.2. Bydd rhywogaethau yn cytrefu ardal Coetir Anian oherwydd gwelliannau i gynefinoedd neu'n cael eu hailgyflwyno yn unol â chanllawiau IUCN. Bydd llysysyddion mawr gwyllt, neu fridiau domestig sy'n agos at eu cyndeidiau gwyllt, yn pori ardal y prosiect. Bydd ceffylau, gwartheg, buail, ewigod, ceirw coch, elciaid yn cael eu hystyried ar adegau priodol. Bydd mamaliaid eraill yn cael eu cyflwyno pan fydd hynny'n ymarferol, gyda ffocws cychwynnol ar lygod y dŵr, a bele ar y cyd â rhaglen ar gyfer adfer y wiwer goch. Yn y tymor hwy, byddwn yn edrych ar ymarferoldeb cathod gwyllt. Mae'r baedd gwyllt yn debygol o fudo i'r ardal yn y tymor hir. Mae rhywogaethau cigysydd mawr y tu hwnt i gwmpawd ein prosiectau. Disgwylir i rywogaethau adar ail-gyfannu'n naturiol, ac efallai y bydd rhai rhywogaethau'n cael eu hystyried i'w hailgyflwyno.

Cynllun Strategol 2021 - 2030

Statws Cyfredol:

Llysysyddion mawr:

Cefnaint fridio o geffylau Konik wedi'i chyflwyno ac yn bresennol ar hyd y flwyddyn.

Pori haf ychwanegol gyda gwartheg Ucheldir i leihau molinia.

Cwblhawyd arolwg mamaliaid sylfaenol, gan gofnodi mamaliaid canlynol:

Llwynog goch (*Vulpes vulpes*)

Moch Daear Ewropeaidd (*Meles meles*)

Dyfrgi Ewropeaidd (*Lutra lutra*)

Pathew (*Muscardinus avellanarius*)

Llygoden y coed (*Apodemus sylvaticus*)

Llygoden bengron goch (*Myodes glareolus*)

Llygoden bengron y gwair (*Microtus agrestis*)

Gwahadden (*Talpa europaea*)

Gwiwer lwyd (*Sciurus carolinensis*)

Rhywogaeth ystlumod Grŵp Microchiroptera, rhywogaeth debygol pipistrelle *Pipistrellus sp*
Arsylwadau mamaliaid ychwanegol:

Bele'r coed a gyflwynwyd i'r ardal gan VWT ac a welwyd ym Mwllch Corog: mae'r effaith ar y wiwer lwyd yn amrywiol ac nid yw'n ddibynadwy ar hyn o bryd.

Ewig.

Ysgyfarnog brown.

Adar: o restr gychwynnol o 1 rhywogaeth yn 2017, erbyn hyn mae gennym gofnodion o 23 rhywogaeth.

Ymhlith yr uchafbwyntiau mae grugieir coch, giach, gylfinir, boda tinwyn, troellwr bach, tylluan glustiog.

Cwblhawyd arolwg infertebratau sylfaenol, gyda rhai rhywogaethau prin yn genedlaethol ac yn lleol yn bresennol.

Mae dadansoddiad paill o greiddiau pridd i ddangos presenoldeb rhywogaethau planhigion dros amser yn mynd yn ôl 7,000 o flynyddoedd wedi'i gwblhau. Derbyniwyd un o'r ddau adroddiad.

Ailgyflwynwyd Pinwydden yr Alban (*Pinus sylvestris*) ac Gwernen (*Alnus glutinosa*) i'r safle, tua 200 o goed.



Cynllun Strategol 2021 - 2030

Cynlluniau:

Llysysyddion mawr: parhau â'r strategaeth gyfredol o gadw cefnaint o geffylau trwy gydol y flwyddyn a phresenoldeb gwartheg yn yr haf yna adolygu yng ngoleuni profiad a datblygiadau. Monitro effaith niferoedd a rhywogaethau llysysyddion ar lystyfiant.

Llygoden y dŵr: ymchwilio dichonoldeb ar gyfer llygoden y dŵr; os oes angen, sefydlu gweithgor i fynd i'r afael â phresenoldeb mincod Americanaidd yn nalgylch Dyfi.

Gwiwer goch: sefydlu gweithgor gydag aelodau Partneriaeth Gwiwerod Goch Canolbarth Cymru, Coed Cadw, Fforwm Gwiwerod Cymru, gyda'r nod o adfer gwiwer goch i'w hardal.

Afanc: parhau i gyfathrebu â Phrosiect Afanc Cymru.

Adar: Ailgyflwyno grugieir du i eiddo cyfagos sy'n cael ei gydlynu ar hyn o bryd gan Mick Green. Rydym yn bartneriaid sy'n cefnogi'r cynigion.

Parhau i wella cynefinoedd ar gyfer adar rhostir trwy'r rheolaeth gyfredol.

Gwenyn du Cymreig: dau gwch gwenyn naturiolaid a roddwyd gan Cornelia Horl. Posibilrwydd cyrchu cytrefi gan Steve Watson neu Paul Cross ym Mhrifysgol Bangor.

Ychydig gannoedd o goed o wahanol rywogaethau i'w plannu'n flynyddol gan ddefnyddio technegau 'plannu dim ffens'. Parhau am gyfnod amhenodol nes nad oes angen mwyach.